CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Nicola Roberts**
**Grwp: Plaid Cymru** **Ward: Canolbarth Môn**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 3 (38%) |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | 12 (86%) |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (Mai 2015 ymlaen) | 0 |
| Pwyllgor Trwyddedu | 0 |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 3 chyfarfod (50%).

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn parhau i fod yn lywodraethwr yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn mwynhau. Rwyf yn gynghorydd tref yn Llangefni ac yn trio mynychu cyn gymaint a sydd yn bosib o fy nghynghorau cymuned sef Llanddyfnan, Bodffordd, Gwalchmai a Bryngwran er yr ambell rhwystr oherwydd eu bod nhw ar yr un noson.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf newydd gwblhau gradd yn y gyfraith trwy Brifysgol Bangor a byddaf yn graddio ym mis Gorffennaf eleni. Mae'r gwaith o astudio'r gyfraith wedi bod o gymorth mawr i mi yn fy rôl fel cynghorydd gan i mi gael gwell dealltwriaeth o'r deddfau y mae'n rhaid i ni eu dilyn fel awdurdod lleol, a sut i'w gweithredu a'u defnyddio er budd fy etholwyr.

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Sesiynau Briffio Aelodau (2 allan o 11 = 18%) | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwy'n parhau i fod yn aelod gweithgar sy'n delio gyda materion amrywiol yn fy ward, ond rwy'n ceisio ymatal rhag bod yn aelod ar is-bwyllgorau a grwpiau llywio'n lleol, a hynny oherwydd y teimlaf ei bod yn bwysig i aros yn ddi-duedd gan y byddai'r gymuned angen llais cryf petai'r materion hyn yn mynd i bleidlais. Edrychaf ymlaen at fy mlwyddyn olaf fel cynghorydd ac rwy'n gobeithio parhau i fod yn eiriolydd effeithiol i'm pobl.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=268&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Nicola Roberts** | **Ebrill 2016** |